ATODLEN 7

DARPARIAETHAU TROSIANNOL AC ARBEDION

# RHAN 4

## Darpariaethau'n ymwneud â dileu CCGC

### Dehongli

**13.** Yn y Rhan hon, ystyr "y cyfnod perthnasol" ("*the relevant period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2012 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2013.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I1** Atod. 7 para. 13 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**

### Datganiad terfynol o gyfrifon mewn perthynas â CCGC

**14.**—(1) Rhaid i'r Corff baratoi datganiad o gyfrifon mewn perthynas â CCGC ar gyfer y cyfnod perthnasol.

(2) Rhaid i'r Corff gyflwyno'r datganiad o gyfrifon i Weinidogion Cymru ar ba ffurf bynnag a phryd bynnag a gyfarwyddir ganddynt.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o'r datganiad o gyfrifon at Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 31 Awst 2013 neu cyn hynny.

(4) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

(a) archwilio ac ardystio'r datganiad o gyfrifon ac adrodd arno;

(b) rhoi copi o'r datganiad ardystiedig o gyfrifon ynghyd â'i adroddiad arno i'r Corff; ac

(c) heb fod yn hwyrach na 4 mis ar ôl i'r datganiad o gyfrifon gael ei gyflwyno, gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gopi o'r datganiad ardystiedig o gyfrifon a'r adroddiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I2** Atod. 7 para. 14 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**

### Adroddiad terfynol mewn perthynas â CCGC

**15.**—(1) Rhaid i'r Corff baratoi, ar gyfer Gweinidogion Cymru, adroddiad ar y ffordd y cafodd swyddogaethau CCGC eu harfer a'u cyflawni yn ystod y cyfnod perthnasol.

(2) Rhaid i'r Corff gyflwyno'r adroddiad i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo modd ar ôl 31 Mawrth 2013.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I3** Atod. 7 para. 15 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013, RHAN 4.